**BEIRNIADAETH AR Y GORON AR GYFER Y WE.**
**SYLWADAU ALED LEWIS EVANS.**

Cafwyd 14 o ymgeiswyr yng Nghystadleuaeth y Goron eleni. Roeddem ein dau fel beirniaid o'r farn fod hon yn gystadleuaeth o addewid bendant. Roedd safon iaith uchel ar y cyfan, ond gofyn am fwy o ofal efo drafft olaf rhai. Cynghorir rhai i roi'r gwaith yn y drôr, yna ei loywi a'i ail-gyflwyno ymhen rhai misoedd mewn cystadleuaeth yn y dyfodol. Roedd y testun "Gorwelion" yn sicr yn cynnig cynfas eang, ac roedd yn braf darllen am yr holl amrywiol orwelion yng ngwaith y llenorion ifanc.

**Sylwadau unigol Aled Lewis Evans.**
**Nid yw'r sylwadau mewn unrhyw drefn teilyngdod tan y tri olaf.**

**CROTEN ARALL:** Gwelwn islais coeglyd yr awdur hwn yn amlwg, ond chwydfa o ddrafft cyntaf sydd yma. Gwelwn fewnwelediad bur soffistigedig i ddeunydd llenyddol cyfoes, a'r ymgais i ysgrifennu ar y testun "Gorwelion". Ymdrinnir â'r delweddau stoc o awduron a'r broses ysgrifennu mewn modd difyr ac mae dealltwriaeth ddychanol o'r broses greadigol yma. Gwelwn yma lais pendant ond diffyg cynildeb yw'r gwendid. Byddai ymgorffori'r syniadau mewn cymeriadau a sefyllfaoedd sy'n dangos y cyfan ar waith wedi bod yn well.

Mae'r darn am Alys sydd mewn cadair olwyn yn rhoi gorwelion newydd i lenyddiaeth Gymraeg, ond mae tuedd i bregethu, ac mae llawer o Saesneg yn y ddeialog. Ambell dro bydd syniad yn cael ei ail-adrodd, yn lle ei leoli mewn sefyllfa real. Mae'r adran olaf yn argyhoeddi yn well, ac mae gweithred gadarnhaol ar y diwedd. Mae hwn yn ddrafft am reswm arall hefyd - fe welwn ambell wall elfennol, ac mae angen gwirio cyn ei roi mewn cystadleuaeth yn y dyfodol.

**DARN O'R HAUL:** Darn yn ymwneud efo colled sydd yma. Mae'n anodd cymryd cam yn ôl pan fo'r deunydd yn bersonol iawn. Teimlaf mai môr o emosiwn sydd yma ar hyn o bryd. Yn y darn cyntaf cofia bod angen mwy o enghreifftiau penodol yn hytrach na chyffredinoli, a byddai'n dda i gynnwys deialog. Ond mae'r arddull yn afaelgar iawn serch hynny.

Cancr Mam a cholli rhiant sydd yn yr ail ran, ac i mi roedd yn debyg ei dôn i'r darn cyntaf. Efallai bod y deunydd yn rhy agos ar hyn o bryd. Serch hynny fe geir gonestrwydd a'r gallu i gofnodi'n fanwl. Ceir ambell ddelwedd gofiadwy fel yr un plât yn ormod ar y bwrdd, a'r gwahaniaeth wrth rannu'r canlyniadau lefel A. Ceir ambell wall gramadegol sylfaenol hefyd, ac mewn cystadleuaeth mae'n rhaid hepgor y rhain. Mae'n dasg anodd iawn i ysgrifennu yn estynedig am alar a cholled, ond mae ymgais dda yma, ac mae ar ei orau yma

pan yw'r cyfan wedi ei ddaearu mewn delweddau bob dydd. Mae gallu gan yr awdur i wneud hyn.

Cawn hanes y cyfnod "ar ôl Mam" yn y drydedd ran, a chofio sgyrsiau. Mae'n cloi yn agored ac anochel:"Galar ydi'r pris rydan ni'n ei dalu am gariad." Hoffais lawer o bethau yn y darn gonest ac uniongyrchol hwn.

**HEWL GERRIG:** Catharsis teuluol yng Nghwm Taf, a thaith at y gwreiddiau. Mae'r ehedydd a'r llus yn symbolaidd. Ciliodd y teulu o'r fro, ond gŵyr yr awdur am gysylltiadau chwedlonol a chrefyddol y fro. Fy mhrif bryder o orlwytho'r gyfeiriadaeth, dydy'r darn ddim yn cyfathrebu mor bwerus ac y gallai efo'r darllenydd.

Mynegir y cyfan mewn Cymraeg cyfoethog, urddasol, ond efallai bod hwn yn pentyrru ar adegau. Gellir gweld dylanwad wahanol lenorion Cymraeg ar yr awdur hwn. Cyfeirir at dafodiaith gyfoethog y Wenhwyseg - buasai deialog a sefyllfa yn ymgorffori'r dafodiaith honno wedi bod yn fwy llwyddiannus. Ar adegau ceir gormod o bregethu yma yn lle gadael i ddawn creu darluniau'r ymgeisydd hwn sefyll ar ei liwt ei hunan. Mae tuedd i ail-adrodd, a gogr-droi, a byddai golygu llymach wedi bod yn fuddiol. Hoffais ddysgu am Bryn y Gwyddel, a'r symbol o gladdu'r ehedydd. Mae'r cyfan yn gorffen ar nodyn cadarnhaol serch hynny - nid gorwel yn unig o'r hen ardal yw Caerdydd, ond caer o Gymreictod. Dyma awdur addawol efo adnoddau iaith sydd angen ymlacio efo'r grefft.

**LYCAENA MARIPOSA:** Genre rhyddiaith ffantasi sydd yma, ac er ei fod y ddiddorol mae tuedd erbyn y canol i or-bentyrru geiriau lle mae angen cynildeb. Wrth ddarllen doeddwn i ddim yn siŵr a fyddai'r stori o ddiddordeb cyffredinol.

Yn sicr, roedd yr adran efo deialog yn creu mwy o amrywiaeth a diweddglo dramatig. Ceir meistrolaeth dda ar yr iaith gan yr ymgeisydd hwn, a'r gallu i greu awyrgylch enbyd. Gresyn fod y cyfan yn yr un cywair drwyddi draw.

**MALACARA:** Tybed a yw'r darn hwn yn destunol? Mae'r rhyddiaith yn gafael, ond mae gor-bentyrru iaith ac amwysedd yn wendidau yma. Mae y rhan gyntaf yn gogr-droi yn ei unfan.

Ond ceir ail ran effeithiol i'r stori. Mae'r adrannau am y caffi yn tycio, adrannau gafaelgar a lliwgar. Hefyd cawn ddarlun da o berthynas yn cael ei gwireddu yn rhan olaf y gwaith.

**RHOSOD MELYN:** Tybed a oedd y gwaith hwn yn gwbl destunol? Gwrthdaro sylfaenol rhwng dau glwb peldroed sy’n gefnlen i’r stori “Gwaed a Dŵr”. Gwelwn ysgrifennu awgrymog am ymweld â’r carchar gyda disgrifiadau da. Fel arfer mae’r iaith yn safonol ond rhaid sicrhau cysondeb. Cawn hanes y noson arbennig, ac ambell dro mae lle i greu deialog yn lle sôn am ddigwyddiadau. Tybed hefyd a oes gormod o gymeriadau ar y cynfas ar hyn o bryd? Ni theimlaf fod angen ambell ymadrodd Saesneg fel “short fuse”, er mai arddull siarad y prif sylwebydd sydd yma.

Yn sicr ceir adnabyddiaeth o bobl yn y darn, ond mae yn tueddu i fod ar yr un traw drwyddi draw. Mae Aron wedi goroesi, ond ymddengys fod dŵr yn dewach na gwaed y tro hwn.

**SGWARNOG:** Mae Loti yn ceisio gorwelion newydd yn y darn gwreiddiol hwn. Darn ffantasi ydyw yn mynegi cariad ar ddyffryn Nantlle ac ynys Awenasa, a’r dylwythen teg Loti sy’n pontio’r ddau fyd cyn dod yn rhan o’r bywyd arferol. Mae'r awdur wedi llwyddo i greu byd dychmygol, ac mae ysgrifennu yn y genre hwn at ddant nifer cynyddol o bobl. Mae Loti yn dod i fyd meidrol Wil yn y ffermdy ac fe geir ymdriniaeth lwyddiannus ar unigrwydd. Mae’r iaith o safon gyson dda.

Credaf gyda dyluniadau y gallai'r stori hon fod yn llyfr plant llwyddiannus. Mae’r byd real a’r byd chwedlonol yn cyd-daro. Gwelwn yma fod teimladau dynol yn nodwedd o fyd y tylwyth teg hefyd. Cawn droeon trwstan, ac mae'r berthynas rhwng Loti a Wil yn ddigon diddorol - yn wir yn swynol a chyfareddol mewn mannau.

**UN O DDAU:** Mae’r testun yn amserol a gwreiddiol sef dyn yn cael ei fwlio, mewn perthynas ormesol. Cawn ddau bersbectif ar berthynas arbennig. Eir â ni yn ôl i adeg disgwyl plentyn a theimlad bodlon y ddau. Gwelwn euogrwydd pan gollir y plentyn. Mae’n gynnil ar y cyfan, ond efallai bod lle i fod yn fwy cynnil yn ymson tudalen 6. Credaf fod yr awdur wedi eu trwytho yn y byd amaethyddol, er bod tuedd efallai i ogor-droi yn yr un teimladau. Llinell wag mewn ymson yw “Fedra i’m cyfleu be dwi’n 'deimlo.” Mae’r adran yn delio efo’r galar yn dda, a gwelwn fod un safle ar lan y môr yn aros yr un fath ynghanol byd sy’n newid. Iaith gyhyrog ar y cyfan, gydag ambell fân wall. Diweddglo cynnil.

**COBLYN BACH**: Mae'r awdur hwn yn cyfleu'r cartref henoed yn sylwgar ac yn y rhan cyntaf hwn ceir rhai disgrifiadau tyner gan Ifan Elis. Gorwelion diwedd oes a gorwelion y meddwl a welir yma, ond ar un wedd hefyd diffyg gorwelion. Cawn ddarlun rhwystredig o ddiffyg cyfathrebu teulu Rhun, gyda gofal at fanylion.

Wrth i'r gwaith barhau o bosibl fod o braidd yn dameidiog a herciog ar brydiau. Drwyddi draw mae ansawdd yr iaith o safon uchel iawn, ac mae ymgais dda i greu adeiladwaith cryf. Mae'n datblygu i fod yn stori dywyll gyda'r darlun o wewyr meddwl Rhun, a'r elfen ddinistriol yn ei gymeriad. Mae 'na bwyslais ar fanylion bychan, a naws ormesol, ond tybed a yw'r diweddglo yn rhy amwys?

**DOSBARTH CYNTAF.**

Teimlai'r ddau feirniad fod y goreuon yn neilltuol am eu bod yn dangos addewid fel llenorion y dyfodol i'n cenedl, efo'u dychymyg a'u sgiliau mynegi. Gwelsom aeddfedrwydd arddull, profiad a dychymyg yn y goreuon.

**RHWNG Y DRWG A'R DA**: Dyma feistr ar dafodieithoedd, a dealltwriaeth dda o broblemau. Yn y dyfodol byddai yn wych gweld actio'r monologau hyn gan fod y sgript yn fedrus. Mae Myng-gu yng ngwely'r hosbis ac mae'r fonolog yn effeithiol wrth sôn am ddigwyddiadau'r ward. Ceir doniolwch yma hefyd megis yr ymateb i'r robot. Mae breuddwydion Myng-gu yn argyhoeddi.

Mae acen y De hefyd yn ei le ar gyfer monolog y ferch sy'n dechrau ar ei gyrfa yn yr ysgol uwchradd, Merch gall a threiddgar sy'n gweld mwy na'r cyffredin. Mae doethineb gan yr awdur hwn, ac mae'n cynnal Myng-gu yn effeithiol yn yr ail fonolog hefyd. Ceir elfen eithaf tebyg i un o straeon byrion Mihangel Morgan gan fod y robot yn rhan o fywyd bob dydd y cymeriadau. "Di breuddwydion byth yn siomi". Dyma orwelion a'm bodlonodd i, ac mae'n cloi yn dwt a chelfydd.

**CYNAN MEIRIADOG**:

Gorwelion bywyd colegol yn cyrraedd ffiniau'r bywyd tu hwnt sydd yma mewn mannau. Mae yma ysgrifennu beiddgar a ffantasïol. Mae'r syniad o'r Arhosfyd yn un poblogaidd. Gwelwn ansawdd iaith sy'n gafael, gyda chefndir diddorol sef blwyddyn o hanes Gwil yn Llydaw. O bosibl fod y darn yn parhau yn yr un cywair, ond darlunnir seminar efo cerddoriaeth, a phobl sydd ddim yn adnabod Cymru ac yn cam-gymryd yr enw. Yn yr adran am Nantes gwelwn allu i ysgrifennu yn synhwyrus, megis y darn am Ile de Versailles.

Effaith y flwyddyn dramor a gawn, ac mae ail hanner y gwaith yn cynyddu mewn momentwm ac yn llifo’n rhwyddach i mi. Mae hanes Llydaw yn plethu’n gefnlen ddifyr i Gwil a Konan. Mae'r darn yn cryptig mewn ffordd gyfoethog, ac yn sicr cawn ymdeimlad o ledu ac ymestyn gorwelion.

Ond mae tri arall ar ôl yn y dosbarth cyntaf. Dyma’r tri a ddaeth i’r brig yn dilyn cyd-drafod; a’r buddugol a wnaeth argraff ar y ddau ohonom:

**Yn drydydd SOLFACH:** Ysfa i grwydro sydd gan Mari, ac fe gawn wahanol ysbeidiau yn ei bywyd ar oedrannau amrywiol. Ceir darn teimladol iawn am Mari a’i Nain. Cynigia’r darn ongl newydd ar y cyfrwng trwy nodi lleoliadau gwahanol, a’r profiadau ynddynt ar wahanol oedrannau. Gwelwn ymdriniaeth wreiddiol ar achlysuron mor amrywiol ag atgofion am ei Nain, ei gyrfa golegol ac allgyrsiol, a theithiau i Gaerdydd, Caeredin a Tokyo ymhlith mannau eraill. Yr ysfa i deithio ac i geisio gorwelion newydd sydd yn tanio'r gwaith bywiog a lliwgar hwn sydd mewn arddull lafar a thafodieithol.

**Yn ail cawn GWYLAN**: Darn telynegol, delweddol, tyner a chynnil am Jac yr arlunydd dawnus a awgrymir ei fod yn awtistig, a Mared sy’n dod â’r lliw i’w orwelion. Mae’r darn yn gynnil, bron fel strociau brwsh paent ar gynfas, a’r mynegiant yn drawiadol. Fe’n tynnir i mewn i’r olygfa ar y traeth mewn gwahanol gyfnodau o fywyd Jac. Drwy’r cyfan mae Jac â’r ddawn i baentio lluniau arbennig ar y pier deunaw cam o’r orsaf fysiau. Mae Trystan a Catrin hefyd yn y llun, ac mae’r darn yn delio’n gynnil efo colli person, a phwysigrwydd pethau bach arferol bywyd. Mae’r byd du a gwyn yn raddol droi yn lliw wrth i’w gelf a’i bersonoliaeth ymagor a newid arddull. Hefyd mae Mared yn helpu i Jac ddygymod efo colli ei fam. Mae’r darn yn gadael digon i’r darllenydd ei hun ddehongli hefyd, ac yn ymdriniaeth o’r broses greadigol. Credaf fod y pwynt yn eglur fod Celf yn golygu rhywbeth penodol ac arbennig i bawb sy’n ei greu. Mae gan yr ymgeisydd hwn hyblygrwydd iaith arbennig.

Ac yna, yn cyrraedd y brig mae **HEN LINELL BELL**. Cyfrol swmpus a darllenadwy. Saith darn o ryddiaith a llen micro, bob un â'i orwelion perthnasol ei hun. Daeth y casgliad soffistigedig hwn i'r brig gan y ddau ohonom fel beirniaid. Dyma gyfrol lachar gyda sawl gorwel cyfoes a chyfredol. Mae Oliver yn methu rhyfeddod gweld yr aderyn prin a'i gymar oherwydd ei fod yn gaeth i dechnoleg yn y llên micro cyntaf. Yna, tynged Adar a'i deulu o geiswyr lloches mewn gwersyll, ac wrth fynd ar y cychod i geisio gwell gorwel. Dyma stori ddirdynnol. Yna Andy yn trawswisgo am y noson i gael ymlacio efo'i ffrind Megan, ac i gefnu ar holl bwysau disgwyliadau arferol bywyd. Dyma ysgrifennu gafaelgar a gonest yn ymdrin yn aeddfed â'r ystrydeb fod bechgyn ddim i fod i ddangos eu hemosiynau. Gwelwn angerdd a naturioldeb Andy a Megan. Gwelwn hefyd gymeriadau difyr fel Ffransis a phosibiliadau cyfarfyddiad mewn lifft. Hyfrydwch y casgliad ydy fod o'n llawn o bobl a welwn mewn bywyd bob dydd.

Mae hanes y Band yn dilyn - hwythau wedi cael blas ar fri ac wedi gweld y gorwelion ehangach yn mynnu dychwelyd i'w cynefin, fel y gwna'r gwcw yn flynyddol. Bu'r band yn ffodus efo'r un gân a fu'n llwyddiant rhyngwladol, ond maent hefyd am weld gorwelion cartref ar ôl crwydro'r byd. Yna Alize ddiniwed ym myd parti'r '*gothau*' sy'n cyfarfod â'r hunan-fomiwr yn y ddawns ym Mharis. Ceir deialog afaelgar a chwestiynau dwfn gan y dieithryn am ffydd yn y stori gyfredol ac amserol hon.

Gorffennir efo'r seithfed darn sef llên micro am arlywydd sydd wedi cyrraedd y brig, yn rhwygo ei faniffesto yn ddarnau mân. Darn sydd yn darogan hynt gwleidyddiaeth mewn dwylo twyllodrus.

Gwelwn gysondeb safon uchel yn y saith darn. Mae'r casgliad yn llawn o bobl ddifyr a phobl yr ymylon, a thrwy ddawn y llenor medrwn uniaethu â'u sefyllfa, a hyd yn oed weld y dynol yn y terfysgwr. Ceir rhychwant llachar o orwelion ac o gyweiriau ysgrifennu yn ddeialog neu'n neges destun. Bydd y defnydd amrywiol hwn at ddant darllenwyr ifanc, ac yn rhwydo darllenwyr newydd at y Gymraeg. Llongyfarchiadau gwresog felly i'r buddugol, **HEN LINELL BELL**.

Aled Lewis Evans.